

**Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr  
Iechyd yng Nghymru**

## Tabl Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2. Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru</b>	<b>3</b>
2.1. Gwell Iechyd	3
2.2. Mynediad at Wasanaethau i blant a theuluoedd	4
2.3. Bydd gwell diogelwch ac ansawdd y gwasanaethau yn gwella canlyniadau iechyd	4
<b>3. Y Sylfeini</b>	<b>5</b>
<b>4. Yr Heriau</b>	<b>5</b>
4.1. Iechyd wedi gwella ond nid i bawb	5
4.2. Disgwyliadau'n codi'n barhaus	6
4.3. Staffio yn dod yn gyfyngiad gwirioneddol ar ein gwasanaethau	6
4.4. Ariannu yn gyfyngedig	7
<b>5. Y Cyfnod Nesaf</b>	<b>7</b>
5.1. Gwella canlyniadau iechyd	7
5.2. Un system ar gyfer iechyd	9

5.3.	Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ar gyfer yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	10
5.4.	Anelu at ragoriaeth	15
5.5.	Tryloywder llwyr ar berfformiad	16
5.6.	Partneriaeth newydd gyda'r cyhoedd	17
<b>6.</b>	<b>Sicrhau bod pob ceiniog yn cyfrif</b>	<b>17</b>
<b>7.</b>	<b>Gwneud i Bethau Ddigwydd</b>	<b>18</b>
7.1.	Pob plentyn cyn ysgol a theulu	18
<b>8.</b>	<b>Her barhaus</b>	<b>19</b>
<b>9.</b>	<b>Crynodeb o'r Camau Gweithredu (Atodiad 1)</b>	<b>20</b>
<b>10.</b>	<b>Ymyraethau ar Sail Tystiolaeth (Atodiad 2)</b>	<b>22</b>
<b>11.</b>	<b>Rhestr Dermau (Atodiad 3)</b>	<b>31</b>
<b>12.</b>	<b>Aelodaeth y Grŵp Llywio (Atodiad 4)</b>	<b>33</b>

## **Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru**

### **1. Cyflwyniad**

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru wedi'i llunio trwy drafodaeth a dadl gyda rhanddeiliaid ar draws Cymru.

Mae'n rhestru deg cynnig y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn uchafu ar y cyfraniad y gall Ymwelwyr Iechyd ei wneud wrth gyflawni gweledigaeth o wasanaeth sy'n cynnig dechrau da mewn bywyd i bob plentyn i'w cefnogi wrth gael y cyfle gorau posibl o fyw bywyd iach a hapus a chyflawni potensial pob plentyn ar gyfer parodrwydd i'r ysgol.

### **2. Y Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd**

Mae teuluoedd iach yn hanfodol i greu Cymru ffyniannus, lwyddiannus a chynaliadwy<sup>1</sup> ac er mwyn cefnogi hyn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith deddfwriaethol statudol, gan ymroi i dynnu plant a theuluoedd yng Nghymru allan o dlodi<sup>2</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod iechyd trwy gydol oes yn dechrau gyda'r egwyddor; rhaid i blant gael dechrau da mewn bywyd sy'n cefnogi eu hiechyd a lles hirdymor ac mae pob plentyn a theulu yng Nghymru yn haeddu'r cyfle gorau posibl i fyw bywyd iach a hapus<sup>3</sup>. Bydd y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn cefnogi cyflawni hyn trwy;

#### **2.1 Gwell Iechyd**

- Gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ac allgau cymdeithasol.
- Mwy o bwyslais a ffocws ar iechyd cyhoeddus.
- Cefnogi rhieni a theuluoedd plant cyn ysgol.

---

<sup>1</sup>Llywodraeth Cymru (2011) Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

<sup>2</sup>Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

<sup>3</sup>Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Strategaeth Tlodi Plant.

- Hyrwyddo iechyd babanod, mamau a theuluoedd.
- Gostwng afiechyd trwy ddiogelu plant rhag cam-drin.
- Datblygu gallu cymunedol, gydag Ymwelwyr Iechyd ychwanegol yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf.

## **2.2 Bydd mynediad at wasanaethau i blant a theuluoedd yn gwella–**

- Bydd pob teulu sydd â phlentyn cyn ysgol yn cael cynnig gwasanaeth ymwelwyr iechyd cyffredinol yn cael ei gyflwyno mewn amryw leoliadau, gan gynnwys amgylchedd y cartref.
- Bydd yr holl deuluoedd yn cael eu cefnogi trwy Raglen Plentyn Iach Cymru Gyfan.
- Bydd teuluoedd ag anghenion canfyddadwy ychwanegol yn cael cefnogaeth ychwanegol trwy ymyraethau targedig a neu ddwys wedi'u harwain gan ymwelwyr iechyd
- Trwy fuddsoddiad cynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi teuluoedd yng Nghymru trwy ddyblu nifer y teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg<sup>4</sup>,<sup>5</sup>nifer y safleoedd arloesol ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd<sup>6</sup> ac ariannu Teuluoedd yn Gyntaf<sup>2</sup>.

## **2.3 Bydd gwell diogelwch ac ansawdd y gwasanaethau yn gwella canlyniadau iechyd-**

- Bydd yr holl blant a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Bydd ymyrraeth Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ar sail tystiolaeth ac yn adlewyrchu ymchwil cyfredol.
- Bydd teuluoedd yn derbyn asesiadau iechyd cynhwysfawr unigol wedi'u cwblhau gan ymwelydd iechyd cymwys, a fydd yn cael eu hadolygu ar gyfnodau allweddol trwy gydol blynyddoedd cynnar plentyn; bydd hyn yn cael ei danategu gan asesiad cyffredin.
- Defnyddio gallu cymunedol i wella iechyd.

---

<sup>4</sup>Llywodraeth Cymru (2011) Pump am Ddyfodol Tecach.

<sup>5</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Canllawiau Dechrau'n Deg 2009-2010.

<sup>6</sup>Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd: Canllawiau Statudol a Rheoliadau.

- Cysylltiadau cyfathrebu a TG gwydch i sicrhau bod gan staff clinigol fynediad diogel a sicr at wybodaeth.
- Defnyddio gwybodaeth i wella ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau.

### 3. Y Sylfeini

Ymwelwyr Iechyd yw un o'r ychydig grwpiau proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant iechyd cyhoeddus, mae ganddynt gofrestrriad deul ac yn gorfod cyflawni safonau penodol er mwyn cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<sup>7</sup>. Mae'r sylfeini cyflwyno gwasanaeth wedi'u tanategu gan bedair egwyddor graidd<sup>8</sup>. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y chwiliad ar gyfer anghenion iechyd.
- Ysgogi ymwybyddiaeth o anghenion iechyd.
- Dylanwad polisiau sy'n effeithio ar iechyd.
- Hwyluso gweithgareddau sy'n cyfoethogi iechyd.

Mae gan yr egwyddorion craidd hyn sylfeini cadarn o fewn nyrsio iechyd cyhoeddus, iechyd plant a theuluoedd a gwybodaeth gymunedol. Mae Ymwelwyr Iechyd yn cydnabod bod yn rhaid iddynt gydweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol/amlasiantaeth er mwyn cyflawni canlyniadau positif yn effeithiol.

## 4. Heriau

### 4.1 Iechyd wedi gwella ond nid i bawb

Wrth i iechyd y boblogaeth barhau i wella<sup>9</sup>, mae bwlch anghyfiawn sy'n tyfu yn parhau o fewn iechyd a lles yn dibynnu ar ddaearyddiaeth ac amgylchedd cymdeithasol, sy'n amlwg ar yr oedran ieuengaf. Er enghraifft, mae marwolaethau babanod (mesur o iechyd cymdeithas a gydnabyddir yn rhyngwladol) yn dangos bod

---

<sup>7</sup>Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2004) Standards of Proficiency for Specialist Community Public Health Nursing.

<sup>8</sup> Twin S, Cowley, S (1992) The Principles of Health Visiting: a re-examination.

<sup>9</sup>Jewell, T (2010) Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru (2009)

cyfraddau marwolaethau babanod yn llawer gwaeth o fewn grwpiau dan anfantais ac ardaloedd o amddifadedd. Daeth tystiolaeth a gymerwyd o Adolygiad Marmot: Fair Society, Healthy Lives i'r casgliad;<sup>10</sup>

*Byddai potensial i un Chwarter o'r holl farwolaethau o dan un oed gael eu hosgoi pe bai'r holl enedigaethau â'r un lefel o risg â'r rheini i fenywod â'r lefel isaf o amddifadedd.*

## **4.2 Disgwyliadau yn codi'n barhaus**

Mae anghenion plant, teuluoedd a chymunedau yn dod yn fwy cymhleth drwy'r amser. Mae'r cymhlethdodau hyn ar lefel unigol a theuluol ac yn cynnwys, hyrwyddo ymlyniad a datblygiad plentyn, diogelu plant, effaith emosiynol ar blant sy'n agored i gam-drin domestig, plant ag anghenion iechyd cymhleth, amddifadedd, rhieni yn eu harddegau a cham-drin sylweddau, a hefyd ar lefel gymunedol gyda thlodi, tai, diweithdra ayyb.

Mae hefyd yn bwysig ystyried heriau cyflwyno gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Gallai natur wledig yn aml gyflwyno gwahanol broblemau, megis mynediad at wasanaethau ac unigedd.

Yn ychwanegol mae ardaloedd yng Nghymru sydd wedi, ac yn dal i brofi cynnydd sylweddol mewn cyfraddau genedigaeth yn lleol sydd wedi effeithio ar lwyth gwaith Ymwelwyr Iechyd heb yr adnoddau ychwanegol.

Er mwyn gallu bodloni disgwyliadau'r cyhoedd, partneriaid lleol a'r comisiynydd, bydd yn rhaid i ymwelwyr Iechyd fabwysiadu gwahanol ffyrdd o weithio.

## **4.3 Staffio yn dod yn gyfyngiad gwirioneddol ar ein gwasanaethau**

Mae creu gweithlu cynaliadwy yn her gynyddol anodd i'r gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru. Mae pwysau gweithlu sy'n heneiddio, yr hinsawdd economaidd ariannol, yn ychwanegol at ddatblygu mentrau blynyddol cynnar wedi gostwng y

---

<sup>10</sup> Tim Adolygu Marmot (2010) Fair Society, Healthy Lives: Strategic Review of Health Inequalities in England post -2010.

gweithlu Ymwelwyr Iechyd Cyffredinol sydd ar gael. Mae hyn wedi arwain at lwythi achosion a lefelau llwyth gwaith yr Ymwelwyr Iechyd Craidd yn cynyddu i lefelau annerbyniol mewn rhai ardaloedd<sup>11, 12</sup>.

#### **4.4 Ariannu yn gyfyngedig**

Er bod y Llywodraeth yn wynebu cyfyngiadau ariannol digynsail, trwy eu manifesto y mae ymrwymiad i ddyblu Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000 o blant o dan 4 oed,<sup>3,4</sup> ac i ymestyn y safleoedd arloesol ar gyfer Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd<sup>5</sup>. Yr her yw sut y bydd Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd Craidd yn ymateb i wasanaethau diogel a chynaliadwy ar draws Cymru.

### **5. Y cyfnod nesaf**

Diben Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd fydd rhoi'r grym i blant, unigolion, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â'u cefnogi, i gyrraedd a chyflawni eu potensial iechyd a lles llawnaf.

Mae tystiolaeth newydd cymhellol ar gael mewn perthynas â datblygiad iechyd meddwl cynnar babanod<sup>13</sup>, datblygiad niwrolegol mewn babanod ac ymlyniad a bondio. Mae'r ymchwil yn datgan os yw plant a theuluoedd yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, byddant yn profi gwell canlyniadau. Serch hynny gyda'r galwadau cyfredol ar yr Ymwelydd Iechyd, niferoedd llwythi gwaith cynyddol ac argaeledd y gweithlu, gan mai dim ond unwaith bob blwyddyn academaidd y mae hyfforddiant yn digwydd, mae sicrhau bod gan blant a theuluoedd fynediad at gefnogaeth gywir ac amserol yn dod yn gynyddol heriol ac anghynaliadwy, heb adolygu rolau a chyfrifoldebau cyfredol.

Er mwyn gallu bodloni disgwyliadau'r cyhoedd, partneriaid lleol a chomisiynwyr, bydd yn rhaid i ymwelwyr iechyd fabwysiadu gwahanol ffyrdd o weithio.

---

<sup>11</sup> Unite/Community Practitioners' and Health Visitors' Association Omnibus Survey 2008

<sup>12</sup> The Protection of Children in England: A Progress Report, The Lord Laming (2009)

<sup>13</sup> Llywodraeth Ei Mawrhydi (2011) Early Intervention: The Next Steps. Adroddiad Annibynnol i Lywodraeth Ei Mawrhydi, Graham Allen AS.



## 5.1 Gwella canlyniadau iechyd

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod tlodi plant fel un o'r ffactorau risg mwyaf ac o'r farn bod gwella canlyniadau iechyd plant a rhieni sy'n byw o fewn teuluoedd incwm isel yn hanfodol wrth fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae plant sy'n dod o deuluoedd sydd â ffactorau risg lluosog (e.e. salwch meddwl, cam-drin sylweddau, dyled, tai gwael, cam-drin domestig ayyb) hyd yn oed yn fwy tebygol o brofi ystod o ganlyniadau iechyd a chymdeithasol gwael megis oedi datblygiadol, problemau ymddygiadol, pryderon diogelu, salwch meddwl, cam-drin sylweddau, rhieni yn eu harddegau, cyrhaeddiad addysgiadol isel ac ymddygiad troseddol.

Mae plant sy'n cael eu geni i famau yn eu harddegau yn wynebu her benodol wrth gael dechrau da mewn bywyd, ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu rhaglenni penodol megis Rhaglen Partneriaeth Nyrs Deuluol<sup>14</sup> a darparu dulliau atal cenhedlu sy'n para'n hir.

Rôl yr Ymwelydd Iechyd yw adnabod plant a theuluoedd sydd wrth risg uchel a neu sydd â ffactorau amddiffynnol isel ac i sicrhau bod ganddynt wasanaeth personol i fodloni eu hanghenion. Gallai'r gwasanaethau gofynnol amrywio o ymyraethau untro neu gefnogaeth ddwys hirdymor. Bydd yr Ymwelydd Iechyd yn sicrhau bod adnoddau cefnogol digonol yn cael eu dyrannu i'r teulu a bydd yn cysylltu ac yn gweithio gyda phartneriaid/asiantaethau allweddol i fodloni anghenion iechyd ehangach y plant, y teuluoedd a'r cymdogaethau.

Bydd ffocws o'r newydd hefyd ar gyflwyno gweithgareddau iechyd cyhoeddus, a amlinellir ym mholisiau iechyd cyhoeddus, ataliol<sup>15</sup> a bydd yn gweithio tuag at atal afiechydon cronig hirdymor ac atal salwch.

### **CAMAU GWEITHREDU**

#### **Cam 1**

*Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch i weithio gydag ymarferwyr i ddatblygu a chytuno ar y galluoedd a'r sgiliau angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer*

<sup>14</sup> Yr Ardal Iechyd (2011) Family-Nurse Partnership Programme England. Birkbeck University London.

<sup>15</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Ein Dyfodol Iach Papur Gwaith Technegol

*Ymwelwyr lechyd ac aelodau'r tîm.*

### **Cam 2**

*Bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn gweithredu'r argymhellion iechyd ar gyfer Dechrau'n Deg.*

### **Cam 3**

*Llywodraeth Cymru i ystyried gweithredu'r Rhaglen Partneriaeth Nyrs Deuluol ochr yn ochr â rhaglenni cyfredol i gefnogi mamau yn eu harddegau.*

## **5.2 Un system ar gyfer lechyd**

Er mwyn bodloni anghenion iechyd plant, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru, rhaid i wasanaethau ryngweithio a chysylltu'n effeithiol er mwyn gallu bodloni'r galw a'r disgwyliadau, wrth barhau i gynnig gwasanaethau cynaliadwy yn lleol.

Bydd cyflwyno gwasanaeth a thimau ymwelwyr iechyd llwyddiannus yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar drefniadau gweithio ar y cyd gyda'u cydweithwyr Gofal Sylfaenol (Meddygon Teulu a Nyrsys Practis), Bydwagedd<sup>16</sup> a Nyrsys Ysgol<sup>17</sup>. Mae gan bob un rôl unigryw a rhyng-gysylltiedig i sicrhau bod plant a theuluoedd yn ymuno ac yn gadael gwasanaethau mewn modd llyfn, gyda llwybrau cyfathrebu clir a gweithio cydgysylltiedig yn cael ei gyflwyno trwy ymdriniaeth tîm yn canolbwyntio ar y plentyn. Rôl Ymwelwyr Iechyd gyda phlant ifanc a theuluoedd fydd cydlynu Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan. Bydd y Rhaglen Plentyn Iach ar gyfer cyfnodau bywyd cynnar yn canolbwyntio ar wasanaeth ataliol cyffredinol, gan ddarparu rhaglen ar gyfer sgrinio, imiwneiddio, adolygiadau iechyd a datblygiadol, wedi'i ategu gan gyngor yn ymwneud ag iechyd, lles a rhianta<sup>18</sup>. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy asesiad ac adolygiad parhaus gan ddefnyddio offeryn asesu cyffredin, sy'n cael ei gydnabod gan Awdurdodau Iechyd a Lleol fel ei gilydd.

Mae amddiffyn a diogelu plant yn faes o gyfrifoldeb statudol ar gyfer partneriaid amlasiantaeth ac mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i wneud gwahaniaeth i'r plant a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru<sup>19</sup>. Mae rôl Ymwelwyr Iechyd yn hanfodol o ran diogelu ac amddiffyn plant, trwy ddarparu

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru (2011) Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.

<sup>17</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio Ysgol yng Nghymru.

<sup>18</sup> Yr Adran Iechyd (2009) Rhaglen Plentyn Iach. Beichiogrwydd a phum mlynedd gyntaf bywyd.

<sup>19</sup> Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

asesiadau, hybu iechyd, adnabod risgiau a chyflwyno cefnogaeth a all atal camarfer rhag digwydd.<sup>20</sup>

### **CAMAU GWEITHREDU**

**Cam 4** Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu 3 menter, a fydd yn cael eu gweithredu ar draws Cymru:

- Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan y bydd gwyliadwriaeth iechyd plant yn gydran ohoni.
- Offeryn asesu cyffredin Cymru Gyfan ar gyfer Ymwelwyr Iechyd a'u timau.
- Cofnod Iechyd Plentyn y Mae'r Rhiant yn ei Gadw i Gymru Gyfan.

### **5.3 Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif**

Bydd prif ffocws Ymwelwyr Iechyd ar ataliad, adnabod ac ymyrraeth yn gynnar mewn perthynas ag angen iechyd a chymdeithasol y boblogaeth yn hytrach na "thriniaeth".

Yng Nghymru, bydd Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd cyffredinol yn cael ei ddarparu i boblogaeth gyfan plant ifanc rhwng 0 a 5 oed a'u teuluoedd o fewn eu cymuned leol. Bydd y boblogaeth hon yn derbyn mynediad at wasanaethau priodol o ansawdd uchel, waeth ble maen nhw'n byw, beth yw eu grŵp ethnig, eu hiaith neu eu hamgylchiadau cymdeithasol<sup>21</sup>.

Mae Ymwelwyr Iechyd wedi'u hyfforddi i adnabod teuluoedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu ddwys; trwy ddefnyddio eu sgiliau clinigol a phroffesiynol a'u dyfarniad byddant yn gweithio gyda theuluoedd i ddatblygu cynlluniau unigol. Bydd y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn cynnig i deuluoedd ag anghenion ychwanegol;

- Ymyrraethau Targedig, fe allai hyn fod yn ymyrraethau tymor byr neu'r tymor hwy (e.e. iechyd meddwl mamau).
- Ymyrraeth a chefnogaeth ddwys (statudol) i deuluoedd â'r angen mwyaf (plant ag anghenion iechyd cymhleth a phlant sydd angen eu hamddiffyn), yn cael eu cyflwyno trwy ymdriniaeth amlasiantaeth gyda phartneriaid allweddol.

<sup>20</sup> NSPCC (2011) Mae Pob Baban yn Cyfri: Atal ac Amddiffyn Babanod Agored i Niwed.

<sup>21</sup> Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (2005) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yng Nghymru bydd gweithlu amlddisgyblaeth wedi'u grymuso a'u harwain gan Ymwelwyr Iechyd yn cynnig arweinyddiaeth glinigol arbenigol i dîm sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac i gyflwyno canlyniadau ansawdd a osodir gan y Llywodraeth.

Ni fydd cymysgedd sgiliau yn cael ei ddefnyddio yn lle rôl broffesiynol yr Ymwelydd Iechyd nac i'w gwanhau, ond yn hytrach i'w chyfoethogi. Bydd hyn yn galluogi i ymwelwyr iechyd ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i'r eithaf, wrth ddirprwyo tasgau priodol i aelodau eraill y tîm<sup>22</sup>.

### **5.3.1 Rôl yr Ymwelydd Iechyd cymwys yng Nghymru yn y dyfodol fydd;**

- Arbenigwr mewn datblygiad plant.
- Cyflwyno ac arwain Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan newydd.
- Cwblhau asesiad ac adolygiadau iechyd a lles cynhwysfawr o blant cyn ysgol a'u teuluoedd, gan ddefnyddio offer Asesu Cymru gyfan.
- Gweithredu rhaglenni atal i fodloni angen canfyddadwy, gyda'r ffocws yn y pendraw ar wella iechyd y cyhoedd a thynnu plant allan o dlodi.
- Cyflwyno rhaglenni dwys, gyda phartneriaid allweddol, i'r plant a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed.
- Sicrhau gwybodaeth iechyd cyhoeddus ehangach o'r gymuned leol, deall y penderfynyddion a allai effeithio ar iechyd, datblygu rhaglenni iechyd ataliol a thargedu adnoddau a chyfeirio'n briodol.
- Cynnig arweinyddiaeth glinigol arbenigol i dîm amlddisgyblaeth.
- Nyrs sy'n Rhagnodi.<sup>23</sup>
- Ymarferwyr cymwys a hyderus wrth ddiogelu ac amddiffyn plant.

### **5.3.2 Rôl y Nyrs Gofrestredig (Band 5)**

Bydd nyrsys cofrestredig yn cael eu recriwtio i gefnogi cyflwyno a gwella cynaliadwyedd gwasanaethau i blant cyn ysgol a'u teuluoedd.

---

<sup>22</sup> Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2008) The Code: Standards of Conduct, Performance and Ethics for Nurses and Midwives.

<sup>23</sup> Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2006) Standards of Proficiency for Nurse and Midwife Prescribers.

Serch hynny byddai'n niweidiol cymryd yn ganiataol y gallai Nyrs Gofrestredig gymryd rôl Ymwelydd Iechyd Cofrestredig (a fydd hefyd yn Nyrs Gofrestredig) gan fod y rhaglen addysg a hyfforddi i gymhwyso fel Ymwelydd Iechyd yn eu cyfarparu â sgiliau a galluoedd ychwanegol ac sy'n sylweddol wahanol. Bydd y Nyrs Gofrestredig yn gweithio o dan gyfarwyddyd Ymwelydd Iechyd cymwys a bydd yn;

- Rheoli sefyllfaoedd penodol ac wedi'u diffinio
- Darparu gwybodaeth iechyd berthnasol a chyfredol ar sail anghenion unigol a'r teulu.
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer hybu iechyd a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol.

### **5.3.3 Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd**

Ar draws Cymru mae rolau gweithiwr cymorth wedi'u datblygu, ond y mae amrywiadau mewn sgiliau, galluoedd a chyrhaeddiad addysgiadol. Rôl y gweithiwr cymorth yw cyflwyno ar dasgau dirprwyedig yn ôl cyfarwyddyd a goruchwyliaeth yr Ymwelydd Iechyd cymwys<sup>24</sup>. Disgwylir bod gan y Gweithiwr Cymorth NVQ perthnasol neu gymhwyster cyfwerth, neu'n gweithio tuag at un.

### **5.3.4 Gweinyddiaeth**

Er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd mae cymorth weinyddol yn hanfodol.

### **5.3.5 Seilwaith Reoli**

Bydd seilwaith rheoli proffesiynol gadarn yn hanfodol i gefnogi cyflwyniad strategol a gweithredol y weledigaeth hon.

Eu rôl fydd darparu neu sicrhau;

---

<sup>24</sup> Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2008) The Code: Standards of Conduct, Performance and Ethics for Nurses and Midwives.

- Cyfeiriad strategol a gweithredol clir, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol.
- Arweinyddiaeth glinigol gref
- Diogelu'r cyhoedd o ran atebolrwydd Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Cadw at safonau proffesiynol.
- Fframwaith llywodraethu clinigol cadarn sy'n cefnogi arfer clinigol.
- Addysg a hyfforddiant priodol yn cael eu cynnig trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Recriwtio a chadw staff.
- Goruchwyliaeth a chefnogaeth briodol
- Y Bwrdd Iechyd yn datblygu ac yn cyflwyno eu hagenda iechyd cyhoeddus strategol i fodloni angen lleol.

### **5.3.6 Ymwelwyr Iechyd a'r gymysgedd sgiliau o fewn Dechrau'n Deg**

Bydd rôl, swyddogaeth a sgiliau Ymwelydd Iechyd sy'n gweithio gyda phlant cyn ysgol a'u teuluoedd yr un peth pa un a ydynt yn gweithio o fewn gwasanaeth ymwelwyr iechyd cyffredinol neu Dechrau'n Deg; gan hynny bydd yr egwyddorion yr un peth. Serch hynny mae gan Dechrau'n Deg gydran Ymwelydd Iechyd nad oes modd ei thrafod gydag Ymwelwyr Iechyd yn cynnig gwasanaethau uwch gyda llwythi achos gostyngol nad yw'n uwch na 110 o blant.

Argymhellir y byddai'r gymysgedd sgiliau o fewn y lleoliad Dechrau'n Deg â chylch gorchwyl ehangach, o'i gymharu â'r hyn a ddisgrifir ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol. Mae Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno gan dîm amlasiantaeth, gyda disgyblaethau eraill, a allai gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Dietegwyr, Bydwreigiaeth ynghyd ag Ymwelwyr Iechyd. Gan hynny byddai disgwyl, lle fo'n briodol, bod nyrsys cofrestredig neu weithwyr cymorth Agenda ar gyfer Newid Band 3/4 yn cefnogi'r tîm amlasiantaeth yn ychwanegol at Ymwelwyr Iechyd. Er mwyn sicrhau hyn, rôl yr Ymwelydd Iechyd fyddai sicrhau bod nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth sydd â thasgau dirprwyedig yn derbyn goruchwyliaeth ddigonol ac yn adolygu effeithiolrwydd ymyraethau y maen nhw wedi ymgymryd â hwy.

### 5.3.7 Ble y bydd ymyraethau yn cael eu cyflwyno?

Bydd gwasanaethau yn cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau gyda phwysigrwydd ymweliadau cartref yn parhau yn allweddol ac yn ganolog i gyflawni canlyniadau. Mae asesu plant a'u teuluoedd o fewn amgylchedd eu cartref yn gwella canlyniadau iechyd a chymdeithasol a bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae darparu llety cymunedol priodol yn hanfodol. Bydd yn rhaid i hyn fod yn addas ar gyfer gweithgareddau datblygu cymunedol, gyda lle ar gyfer arfer clinigol a thrafodaeth gyfrinachol. Yn ychwanegol, ble bynnag y mae timau Ymwelwyr Iechyd, boed hynny o fewn lleoliad cymunedol neu Bractis Meddyg Teulu, dylai lle digonol gael ei ddarparu ble mae lle i storio cofnodion, ynghyd â mynediad da at systemau TG.

Er mwyn hyrwyddo a chyfoethogi gweithio mewn partneriaeth, byddai disgwyl hyd y gellir i Ymwelwyr Iechyd sy'n gweithio gyda Dechrau'n Deg gael eu cyd-leoli o fewn y tîm amlasiantaeth.

#### **CAMAU GWEITHREDU**

##### **Cam 5**

*Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn cyflwyno hyfforddiant i Ymwelwyr Iechyd a thimau er mwyn gallu gweithredu'r Rhaglen Plentyn Iach y bydd Ymwelwyr Iechyd yn ei harwain yn llawn.*

##### **Cam 6**

*Dylai Byrddau Iechyd Lleol a Phartneriaid ystyried Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn cefnogi defnyddio cymysgedd sgiliau o fewn timau Ymwelwyr Iechyd a thrwy gynllunio integredig ac ar y cyd, ystyried Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cyflwyno ymyraethau Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yn yr agenda ataliol ac amddiffyn ar gyfer plant a theuluoedd.*

##### **Cam 7**

*Bydd Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i adolygu systemau TG gyda chynllun tymor hwy i gyflwyno cofnodion electronig.*

##### **Cam 8**

*Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod llety priodol yn cael ei gynnig ar gyfer gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, a allai fod mewn nifer o leoliadau gan gynnwys Gofal Sylfaenol.*

#### **5.4 Anelu at ragoriaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr hyn y mae rhieni yn ei wneud yn bwysicach na phwy ydynt, yn enwedig ym mlynnyddoedd cynnar y plentyn. Mae'r math cywir o rianta yn ddylanwad mwy ar eu dyfodol na chyfoeth, dosbarth, addysg neu unrhyw ffactor cymdeithasol cyffredin arall. Felly bydd y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn y dyfodol wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu manteision gwyddonol cyfredol, yn enwedig mewn perthynas â niwrowyddoniaeth a datblygiad plant, gwella gallu rianta, yn ychwanegol at gefnogi a chyflwyno ar yr agenda iechyd cyhoeddus ar gyfer y boblogaeth hon (gweler Ymyraethau ar sail tystiolaeth ynghlwm). Bydd gweithgaredd yn canolbwyntio ar:

- Asesiad (o holl aelodau perthnasol y teulu).
- Aseidiadau datblygiadol rheolaidd o'r holl blant yn canolbwyntio ar iechyd cymdeithasol ac emosiynol.
- Ymlyniad a rianta cadarnhaol.
- Cymorth i rieni.
- Rhaglenni rianta ar sail tystiolaeth.
- Addysg iechyd a gwybodaeth iechyd.
- Heriau iechyd cyhoeddus.
- Datblygiad cymunedol.
- Materion diogelu ac amddiffyn plant.
- Eiriolaeth i fodloni hawliau'r plentyn.<sup>25</sup>

Diben cydran Ymwelydd Iechyd o Dechrau'n Deg trwy lwythi achosion llai yw cyflwyno ar yr uchod. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Llywodraeth wedi ymroi i hyfforddi Ymwelwyr Iechyd ychwanegol ac yn gweithio gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a darparwyr Addysg i gynyddu nifer yr Ymwelwyr Iechyd a fydd yn cael eu hyfforddi yn ystod y tair blynedd nesaf.

---

<sup>25</sup> Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig (1989/2004)



## **CAMAU GWEITHREDU**

### **Cam 9**

*Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i ddatblygu offeryn staffio a gweithlu priodol i gyflwyno gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd diogel ac effeithiol, ar sail llwyth gwaith a phroffiliau llwythi achos.*

### **Cam 10**

*Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Sefydliadau Addysg Uwch a Byrddau Iechyd i sicrhau bod yr ymrwymiad y cytunwyd arno ar gyfer Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno o ran gweithlu Ymwelwyr Iechyd, gan gynnwys yr Athrawon Practis ychwanegol.*

### **Cam 11**

*Byrddau Iechyd i sicrhau bod gan yr holl Ymwelwyr Iechyd a'u timau lefelau priodol o hyfforddiant diogelu a goruchwyliaeth glinigol i weithio mewn partneriaeth gyda fframwaith amlasiantaeth y Byrddau Lleol Diogelu.*

## **5.5 Tryloywder llwyr ar berfformiad**

Yn hanesyddol mae cyfraniad ymwelwyr iechyd at wella iechyd y boblogaeth wedi bod yn anodd iawn ei fesur. Gan hynny mae'n hanfodol bod cyflwyno gwasanaeth wedi'i seilio ar ganlyniadau gyda systemau rheoli perfformiad yn rhan ohono. Bydd llwyddiant Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yn y dyfodol yn cael ei fesur gan eu cyfraniad at wella canlyniadau iechyd y boblogaeth ddiffiniedig.

Er mwyn cefnogi'r ymdriniaeth hon mae angen offer asesu safonol er mwyn gallu meincnodi'n gywir ar draws Byrddau Iechyd Lleol Cymru.

## **CAMAU GWEITHREDU**

### **Cam 12**

*Llywodraeth Cymru i adnabod mesurau canlyniad perfformiad allweddol ar gyfer*

*Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd.*

### **Cam 13**

*Byrddau Iechyd i roi adnoddau digonol i Dimau Ymwelwyr Iechyd er mwyn gallu bodloni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.*

## **5.6 Partneriaeth newydd gyda'r cyhoedd**

Mae'r gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd bob amser wedi gweithio gydag unigolion a theuluoedd ac maen nhw'n cael eu hystyried yn wasanaeth cyffredinol nad yw'n stigmatiddio sy'n cael ei dderbyn gan bawb. Mae llwyddiant gwasanaethau ymwelwyr Iechyd yn y dyfodol yn dibynnu ar hyn yn parhau. Serch hynny rhaid i gyswllt a barnau teuluoedd gael eu ffurfioli i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni eu hanghenion.

Yn ychwanegol rhaid i Ymwelwyr Iechyd fod yn fwy ymwybodol yn wleidyddol a chysylltu gyda'r gymuned leol er mwyn bod yn rhan o ailgynllunio gwasanaeth cymunedol gan sicrhau bod gan blant a theuluoedd lais ynglŷn â chyflwyno a chynllunio gwasanaethau lleol.

## **6. Sicrhau bod pob ceiniog yn cyfrif**

Mae'r dadleuon moesegol, moesol a chymdeithasol dros fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar yn gymhellol, serch hynny mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol ei bod hi'n gwneud synnwyr economaidd ac ariannol cadarn bod newid mewn polisi i fuddsoddi mewn ymyrraethau cynnar ym mywyd plentyn yn creu arbedion anferth yn hytrach na cheisio rheoli canlyniadau rianta gwael, anhwylder ymddygiad, ymddygiad gwrthgymdeithasol a ffordd o fyw sy'n effeithio'n negyddol ar ganlyniadau Iechyd corfforol<sup>26, 27</sup>.

<sup>26</sup> Allen, G. (2011) Early Intervention: The Next steps. Adroddiad Annibynnol i Lywodraeth Ei Mawrhydi.

Mae patrymau buddsoddiad cyhoeddus cyfredol yn ystod plentyndod cynnar yn pwysu'n drwm o blaid cyfnodau diweddarach bywyd<sup>28</sup>. Mae Llywodraeth Cymru yn adnabod yr angen i adolygu'r ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi ac maen nhw wedi ymrwmo ac ariannu nifer o wahanol fentrau gan gynnwys Dechrau'n Deg, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a Theuluoedd yn Gyntaf. Disgrifir blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu 2011<sup>29</sup>

## **7. Gwneud i Bethau Ddigwydd**

Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar wybodaeth wyddonol gyfredol, ymyraethau ar sail tystiolaeth, polisi llywodraeth a barnau rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol, gyda'r nod o ostwng tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd sy'n un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb dros gynllunio gwasanaethau effeithiol a diogel yn sicr ar Fyrddau Iechyd Lleol. Rôl y Llywodraeth fydd dal sefydliadau lleol i gyfrif am gyflwyno gwasanaethau. Trwy osod gweledigaeth glir ar gyfer iechyd a lles plant Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y meysydd hynny ble y mae gan ymwelwyr iechyd llawer i'w gynnig yn derbyn mwy o bwyslais gan GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol. Mae gan Ymwelwyr Iechyd a'u timau fynediad cyffredinol at holl blant ifanc a'u teuluoedd, arbenigedd iechyd cyhoeddus, gwybodaeth am gymunedau lleol a mynediad at grwpiau difreintiedig a chanddynt gryn dipyn i'w gynnig yn y broses gynllunio a chomisiynu, a dylent ymroi yn weithredol i wneud hynny a'u hannog hefyd.<sup>30</sup>

---

<sup>27</sup> Heckman, J.J. & Masterov, D. (2004) Skills policies for Scotland. Institute for Study of Labour. Papur Trafod 1444.

<sup>28</sup> Tim Adolygu Marmot (2010) Fair Society, Healthy Lives: Strategic Review of Health Inequalities in England post -2010.

<sup>29</sup> Cynulliad Cymru (2011) Rhaglen Lywodraethu.

<sup>30</sup> Ymateb y Llywodraeth i Facing the Future: A review of the role of health visitors (2007).

## **7.1 Pob Plentyn Cyn Ysgol a'u Teuluoedd**

Yn aml, gweithwyr iechyd proffesiynol yw'r unig gyswllt sydd gan blant a theuluoedd yng Nghymru â gwasanaethau. Mae Ymwelwyr Iechyd a'u timau mewn sefyllfa unigryw oherwydd nid yn unig y maen nhw'n cynnig gwasanaeth cyffredinol, yn aml mae'n cael ei ddarparu yng nghartref y plentyn a'r teulu.

Mae Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill sy'n arwain, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau yn hanfodol i wella cyfleoedd bywyd plant.

Mae gan Lywodraeth Cymru, y GIG, ei bartneriaid a'r cyhoedd gyfrifoldeb i gefnogi plant a'u teuluoedd o fewn y cymunedau y maen nhw'n byw ynddynt.

## **8. Her barhaus**

Mae degawdau o ymyrraeth hwyr gan wasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol wedi methu, felly mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Fe all ystod o raglenni wedi'u profi'n dda sy'n isel eu cost ac sy'n cynnig canlyniadau uchel, gael effaith barhaus ar bob plentyn, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Os byddwn yn ymyrryd yn ddigon cynnar gallwn gynnig sylfaen gymdeithasol ac emosiynol hanfodol i blant a fydd yn eu cadw'n hapus ac yn iach ac yn cyflawni trwy gydol eu bywydau ac, yn anad dim, eu cyfarparu i fagu plant eu hunain, a fydd hefyd yn mwynhau lefelau lles uwch<sup>31</sup>.

---

<sup>31</sup> Llywodraeth Ei Mawrhydi (2011) Early Intervention: The Next Steps. Adroddiad Annibynnol i Lywodraeth Ei Mawrhydi, Graham Allen AS.

### Crynodeb o'r Camau Allweddol

Ynghyd â chamau allweddol ar lefel leol, mae nifer o gamau gweithredol strategol penodol wedi'u hadnabod drwyddi draw'r ddogfen hon, sy'n allweddol i gyflwyno'r weledigaeth hon. Amlinellir y camau gweithredu allweddol strategol hyn yn y tabl isod.

CAMAU GWEITHREDU	ERBYN PRYD
<p><b>Cam 1</b>  <i>Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch i weithio gydag ymarferwyr i ddatblygu a chytuno ar y galluoedd a'r sgiliau angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer Ymwelwyr Iechyd ac aelodau'r tîm.</i></p>	Mawrth 2013
<p><b>Cam 2</b>  <i>Llywodraeth Cymru i ystyried gweithredu'r Rhaglen Partneriaeth Nyrs Deuluol ochr yn ochr â rhaglenni cyfredol i gefnogi mamau yn eu harddegau.</i></p>	Mawrth 2013
<p><b>Cam 3</b>  <i>Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu 3 menter, a fydd yn cael eu gweithredu ar draws Cymru:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan y bydd gwylidwriaeth iechyd plant yn gydran ohoni.</i></li> <li>• <i>Offeryn asesu cyffredin Cymru Gyfan ar gyfer Ymwelwyr Iechyd a'u timau.</i></li> <li>• <i>Cofnod Iechyd Plentyn sy'n Cael ei Gadw gan y Rhiant i Gymru Gyfan</i></li> </ul>	Medi 2013
<p><b>Cam 4</b>  <i>Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn cyflwyno hyfforddiant i Ymwelwyr Iechyd a thimau er mwyn gallu gweithredu'n llawn y Rhaglen Plentyn Iach y bydd Ymwelwyr Iechyd yn ei harwain.</i></p>	Medi 2013

**Cam 5**

*Dylai Byrddau Iechyd Lleol a Phartneriaid ystyried Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn cefnogi defnyddio cymysgedd sgiliau o fewn timau Ymwelwyr Iechyd a thrwy gynllunio integredig ac ar y cyd, ystyried Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cyflwyno ymyraethau Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yn yr agenda ataliol ac amddiffyn ar gyfer plant a theuluoedd.*

Mawrth 2013

**Cam 6**

*Bydd Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i adolygu systemau TG gyda chynllun tymor hwy i gyflwyno cofnodion electronig.*

Mawrth 2013

**Cam 7**

*Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod llety priodol yn cael ei gynnig ar gyfer gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, a allai fod mewn nifer o leoliadau gan gynnwys Gofal Sylfaenol.*

Mawrth 2013

**Cam 8**

*Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i ddatblygu offeryn staffio a gweithlu priodol i gyflwyno gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd diogel ac effeithiol, ar sail llwyth gwaith a phroffiliau llwythi achos.*

Medi 2013

**Cam 9**

*Byrddau Iechyd i sicrhau bod gan yr holl Ymwelwyr Iechyd a'u timau lefelau priodol o hyfforddiant diogelu a goruchwyliaeth glinigol i weithio mewn partneriaeth gyda'r fframwaith amlasiantaeth y Byrddau Lleol Diogelu.*

Mawrth 2013

**Cam 10**

*Llywodraeth Cymru i adnabod mesurau canlyniad perfformiad allweddol ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd*

Mawrth 2013

## Ymyraethau ar Sail Tystiolaeth yn cael eu darparu gan

## Ymwelwyr Iechyd a'r Tîm Ymwelwyr Iechyd

Maes	Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm	Tystiolaeth/Strategaeth	Argymhellion
<b>Ymyrraeth Gynnar a chefnogi teuluoedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Adnabod angen yn gynnar.</li> <li>❖ Darparu gwybodaeth ar sail tystiolaeth, cyngor rhagflaenorol a chefnogaeth.</li> <li>❖ Cynnig cefnogaeth uwch a dwys i'r rheini sy'n agored i niwed, fe allai hyn gynnwys rhieni yn eu harddegau.</li> <li>❖ Gweithio gyda rhieni i annog a gwella ymlyniad a rianta sensitif.</li> <li>❖ Rhoi cyfle i famau a thadau drafod eu pryderon a'u dyheadau.</li> <li>❖ Sicrhau bod gwybodaeth a chefnogaeth yn cael eu darparu i deuluoedd trwy ddehonglwyr priodol pan fydd iaith yn rhwystr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Hawliau'r Plant y Cenhedloedd Unedig (1989)</li> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Strategaeth Tlodi Plant.</li> <li>❖ Yr Adran Iechyd (2010) Tackling Health Inequalities in Infant and Maternal Health Outcomes: Report of the Infant Mortality National Support Team</li> <li>❖ Llywodraeth ei Mawrhydi (2011) Early Intervention: The Next Steps. Adroddiad Annibynnol i Lywodraeth ei Mawrhydi, Graham Allen AS.</li> <li>❖ Tîm Adolygu Marmot Review Team (2010) Fair</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd yn defnyddio Asesiad Iechyd Cymru Gyfan i adnabod angen a chynllunio ymyraethau Iechyd.</li> <li>❖ Pob Ymwelydd Iechyd yn derbyn hyfforddiant rhaglenni rianta ar sail tystiolaeth e.e. Solihull/Y Blynnyddoedd Rhyfeddol/NBAS.</li> <li>❖ Llywodraeth Cymru i ystyried y rhaglenni Partneriaeth Nyrs Deuluol ochr yn ochr â rhaglenni cyfredol ar gyfer mamau yn eu harddegau.</li> </ul>

		Society, Healthy Lives: Strategic Review of Health Inequalities in England post -2010 ❖ Yr Adran Iechyd (2009) Healthy lives, brighter futures: The Strategy for Children and Young People	
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Iechyd Meddwl Babanod</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ (Fel ymyrraeth gynnar).</li> <li>❖ Cydnabyddiaeth mai rhieni sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywyd plentyn.</li> <li>❖ Sicrhau bod rhieni yn deall y rôl hanfodol y maen nhw'n ei chwarae wrth lunio a ffurfio datblygiad eu plentyn a'u dyfodol.</li> <li>❖ Darparu gwybodaeth ar sail tystiolaeth i rieni a theuluoedd i annog a gwella ymlyniad a rhianta sensitif.</li> <li>❖ Asesu bondio ac ymlyniad.</li> <li>❖ Darparu addysg iechyd a chynghor i gefnogi rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal i ddeall cyfnodau datblygiad eu babanod a'u plant trwy gydol eu blynyddoedd cynnar.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Fel yr Uchod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i dderbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn diweddarau eu harfer er mwyn deall Iechyd Meddwl Babanod.</li> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i gael eu hyfforddi mewn ymyraethau ar sail tystiolaeth.</li> <li>❖ Pob plentyn i dderbyn asesiad datblygiad ffurfiol ar oedrannau targedig (e.e. SOGS).</li> </ul>
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelydd Iechyd i asesu ar</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Sefydliad Iechyd y Byd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i gael eu</li> </ul>



<p><b>Mamau</b></p>	<p>gyfer iselder gan ddefnyddio argymhellion cenedlaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Adnabod iselder yn gynnar a sicrhau bod gan famau'r gefnogaeth, yr ymyrraeth a neu'r driniaeth briodol i fodloni eu hangen.</li> <li>❖ Ymweliadau gwranddo yn cael eu cynnig os yw'n briodol</li> <li>❖ Gweithio a chyfathrebu gyda'r tîm gofal sylfaenol.</li> <li>❖ Atgyfeiriadau at yr asiantaethau perthnasol os yw'n angenrheidiol.</li> </ul>	<p>(2008) Improving Maternal Mental Health</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2007) Antenatal and Postnatal Mental Health. Clinical Management and Service Guidance. Arweiniad Clinigol NICE 45. Wedi'i ddatblygu gan National Collaborating Centre for Mental Health</li> </ul>	<p>hyfforddi a bod yn fedrus wrth adnabod a rheoli iechyd meddwl mamau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Dylai Ymwelwyr lechyd ddefnyddio'r rhaglen e-ddysgu lechyd Meddwl Amenedigol.</li> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i gael y sgiliau a'r galluoedd wrth gefnogi menywod i ddatblygu strategaethau hunangymorth a chwmsela heb gyfarwyddyd yn cael ei gyflwyno yn amgylchedd y cartref.</li> </ul>
<p><b>Maes</b></p>	<p><b>Rôl Ymwelydd lechyd/tîm</b></p>	<p><b>Tystiolaeth/Strategaeth</b></p>	<p><b>Argymhellion</b></p>
<p><b>Diogelu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Cydnabod ac adnabod plant sydd wrth risg neu angen eu hamddiffyn yn gynnar.</li> <li>❖ Darparu ymyraethau iechyd, cyngor a chefnogaeth briodol.</li> <li>❖ Cefnogi rhieni.</li> <li>❖ Atgyfeiriadau priodol ac amserol.</li> <li>❖ Gweithio fel rhan o dîm amlasiantaeth.</li> <li>❖ Mynychu a chyfrannu at Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant a grŵp craidd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).</li> <li>❖ Llywodraeth Ei Mawrhydi (2006) Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant. Canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant.</li> <li>❖ NSPCC (2011) Mae Pob Baban yn Cyfri: Atal ac Amddiffyn Babanod sy'n Agored i Niwed.</li> <li>❖ Deddf Plant (1989/2004)</li> <li>❖ NSPCC (2011) Mae Pob Baban yn Cyfri: Atal ac</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i gael eu hyfforddi i lefel 3 Diogelu.</li> <li>❖ Tîm Ymwelwyr lechyd i gael eu hyfforddi i Lefel 2 o leiaf.</li> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i dderbyn hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i lefel 2.</li> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i dderbyn hyfforddiant mewn rhaglenni rhianta ar sail tystiolaeth cydnabyddedig.</li> </ul>

		<p>Amddiffyn Babanod sy'n Agored i Niwed.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ The Protection of Children in England: A Progress Report, The Lord Laming (2009)</li> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd: Canllawiau Statudol a Rheoliadau.</li> </ul>	
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Cam-drin domestig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Sicrhau bod cwestiynau Ymholi Rheolaidd yn cael eu gofyn yn cynnedigol ac yn ôl-enedigol ac yn ffurfio rhan o asesiad iechyd cynhwysfawr.</li> <li>❖ Cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth digonol yn cael eu darparu i sicrhau bod y risgiau o fyw mewn sefyllfa ymosodol yn cael eu deall.</li> <li>❖ Dewisiadau priodol a diogel yn cael eu trafod er mwyn galluogi amddiffyniad.</li> <li>❖ Gweithio ar y cyd â thîm amlasiantaeth er mwyn adnabod risgiau a rhannu'r wybodaeth berthnasol lle fo'n angenrheidiol.</li> <li>❖ Cysylltu â Chynadleddau Asesiad Risg Aml-asiantaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan. Ymdriniaeth Cyd-Asiantaethol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i dderbyn hyfforddiant ac yn hyderus i ymholi'n rheolaidd am Gam-drin Domestig.</li> </ul>

	❖ Gwybodaeth leol a chymunedol i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau priodol i'w cadw'n ddiogel.		
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd lechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Marwolaethau Babanod</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Asesiad iechyd cynhwysfawr i ddechrau yn y cyfnod cynenedigol i asesu ffactorau risg ac i barhau trwy gydol y blynyddoedd cynnar.</li> <li>❖ Addysg hybu iechyd a chyngor mewn perthynas â; <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod</li> <li>➢ Ysmygu</li> <li>➢ Bwydo a maeth</li> <li>➢ Yr Amgylchedd</li> <li>➢ Tai</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd.</li> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Papur Gwaith Technegol Ein Dyfodol Iach. Llywodraeth Cynulliad Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Asesiad iechyd cynhwysfawr i ddechrau yn y cyfnod cynenedigol.</li> <li>❖ Rhaid i ymwelwyr iechyd weithio'n agos gyda'r Tîm Gofal Sylfaenol, yn enwedig y Gwasanaeth Bydwagedd.</li> <li>❖ Rhaid i dimau Ymwelwyr Iechyd gael gwybodaeth a sgiliau cyfredol wrth gyflwyno negeseuon iechyd cyhoeddus.</li> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i gael eu hyfforddi i gyflwyno ymyraethau rhoi'r gorau i ysmygu.</li> </ul>
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd lechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Maeth (babanod, plant ifanc a theulu)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Annog a chefnogi mamau sy'n bwydo ar y fron.</li> <li>❖ Cyngor amserol a digonol ar ddiddyfnu.</li> <li>❖ Cyngor a chefnogaeth i deuluoedd sy'n dewis bwydo eu babanod â fformiwla ar arferion bwydo diogel.</li> <li>❖ Cyngor diet iach a maeth i atal gordewdra.</li> <li>❖ Sicrhau bod rhieni yn adnabod eu rôl wrth bennu dewisiadau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Sefydliad Iechyd y Byd (2008) Strengthening Action to improve feeding of infants and young children aged 6-23 months of age in nutrition and child health. UNICEF.</li> <li>❖ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) Buddsoddi mewn gwell cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Holl Ymwelwyr Iechyd wedi derbyn hyfforddiant Menter Cyfeillgar i Fabanod.</li> <li>❖ Gwelliannau wrth gasglu data.</li> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd yn fedrus i hwyluso gweithgareddau grŵp.</li> <li>❖ <b>**Ymwelwyr Iechyd i ddarparu fitaminau am ddim i</b></li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ ffordd o fyw eu plant.</li> <li>❖ Monitro twf babanod a phlant ifanc.</li> <li>❖ Sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliadau mewn perthynas â Chychwyn Iach.</li> <li>❖ Sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o bwysigrwydd fitaminau atodol lle fo'n angenrheidiol ar gyfer y fam a'r plentyn cyn ysgol.</li> </ul>		<p><b>holl blant cyn ysgol a mamau</b></p> <p><b>*** Yr oed hwn heb dderbyn cytundeb y Gweinidog Hyd Yma</b></p>
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Asesu twf a datblygiad (adnabod annormaleddau)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Monitro a chofnodi twf yn rheolaidd.</li> <li>❖ Asesu anghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol baban/plentyn.</li> <li>❖ Rhaglen sgrinio clyw babanod.</li> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i sicrhau bod rhieni yn cael eu hysbysu o ganlyniadau Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd.</li> <li>❖ Gwybodaeth a chyngor priodol i oed i rieni ar bwysigrwydd rhyngweithio positif a fydd yn cynnwys siarad, darllen a chwarae.</li> <li>❖ Adnabod angen yn gynnar a chyngor priodol i rieni ac atgyfeiriad at wasanaethau yn ôl yr angen.</li> <li>❖ Cyngor rhagflaenrol ar reoli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Yr Adran Iechyd (2009) Healthy Child Programme. Pregnancy and the first five years of life.</li> <li>❖ NHS Health Scotland (2011) Gwefan Scottish Early Years: Maternal and Early Years for early years workers.</li> <li>❖ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2010) Mesur taldra a phwysau plant yng Nghymru.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Datblygu a gweithredu Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan newydd.</li> <li>❖ Bydd pob plentyn yn derbyn asesiad datblygiadol gan ddefnyddio offeryn sgrinio Cymru gyfan a argymhellir.</li> <li>❖ Cefnogi cyflwyno Dechrau Da.</li> </ul>

ymddygiad.			
Maes	Rôl Ymwelydd lechyd/tîm	Tystiolaeth/Strategaeth	Argymhellion
<b>Cyfathrebu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Sicrhau bod plentyn wedi cael cynnig rhaglen sgrinio clyw babanod.</li> <li>❖ Gwybodaeth a chyngor priodol i oed i rieni ar bwysigrwydd rhyngweithio positif, a fydd yn cynnwys siarad a darllen.</li> <li>❖ Adnabod angen yn gynnar a chyngor priodol i rieni ac atgyfeiriad at wasanaethau yn ôl yr angen.</li> <li>❖ Cefnogi cyflwyno Dechrau Da.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Fel yr Uchod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Bydd bob plentyn yn derbyn asesiad datblygiadol gan ddefnyddio offeryn sgrinio Cymru gyfan a argymhellir.</li> <li>❖ Cefnogi cyflwyno Dechrau Da.</li> <li>❖ Parhau i gysylltu â TWF (Iaith Gymraeg)</li> </ul>
Maes	Rôl Ymwelydd lechyd/tîm	Tystiolaeth/Strategaeth	Argymhellion
<b>Plant gyda phroblemau iechyd neu ddatblygiadol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Adnabod a chyfeirio'n gynnar at wasanaethau priodol a thimau arbenigol.</li> <li>❖ Cefnogi a chynghori rhieni fel y bo'n briodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Yr Adran Iechyd (2009) Healthy Lives, Brighter futures. Strategaeth ar gyfer iechyd plant a phobl ifanc.</li> <li>❖ Llywodraeth Cymru (2011) Ymgynghoriad: Arweiniad Gofal Parhaol Plant a Phobl Ifanc.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i fod yn ymwybodol o weithdrefnau atgyfeirio ac argaeledd adnoddau i gefnogi plant a theuluoedd, gan gynnwys cysylltu i mewn â gwasanaethau i Blant Cymunedol.</li> </ul>
Maes	Rôl Ymwelydd lechyd/tîm	Tystiolaeth/Strategaeth	Argymhellion
<b>Atal Damweiniau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Asesiad amgylcheddol i gynnwys teuluoedd yn byw mewn llety rhent neu orlawn, offer diogelwch.</li> <li>❖ Cyngor a gwybodaeth priodol i oed ar atal damweiniau i gael eu rhoi i bob cyswllt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Amddiffyn pennau babanod</li> <li>❖ National Guidance for Clinical Excellence (2010) Strategies to Prevent Unintentional Injuries among Children and</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Adnabod plant sydd fwyaf wrth risg yn gynnar trwy asesiadau da.</li> <li>❖ Ymwelwyr lechyd i weithio gyda phartneriaid lleol ar strategaethau atal damweiniau.</li> </ul>

		<p>Young People aged under 15.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Sefydliad Iechyd y Byd (2008) World Report on Child Injury Prevention.</li> <li>❖ Plant yng Nghymru (2009) Gweithio tuag at Strategaeth Diogelwch Plant ar gyfer Cymru.</li> </ul>	
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Imiwneiddio a Brechu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Cynnig gwybodaeth iechyd ac addysg i rieni i sicrhau bod ganddynt ddewis gwybodus.</li> <li>❖ Gweithio fel rhan o'r tîm gofal sylfaenol gyda rôl ddiffiniedig gan Ymwelwyr Iechyd.</li> <li>❖ Cyngor hybu iechyd ar imiwneiddio i gael ei roi ar bob cyswllt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2011) Defnydd Brechiadau i Blant yng Nghymru, Ionawr i Fawrth 2011</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Cydymffurfiad â Rhaglen Plentyn Iach.</li> </ul>
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Iechyd y Geg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Cyngori rhieni ar sut i gynnal iechyd a hylendid deintyddol da ar gyfer plant.</li> <li>❖ Cyngor ar faeth.</li> <li>❖ Annog cofrestru gyda deintydd lleol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru (2006/06) Darlun o Iechyd i Geg. Arolwg o blant 5 oed 2005/06.</li> <li>❖ Cynllun Gwên</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Dylai Ymwelwyr Iechyd a'r tîm dderbyn y diweddaraf yn rheolaidd ar faeth a diddyfnu.</li> </ul>
<b>Maes</b>	<b>Rôl Ymwelydd Iechyd/tîm</b>	<b>Tystiolaeth/Strategaeth</b>	<b>Argymhellion</b>
<b>Ysmygu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Cynnig cyngor iechyd y cyhoedd a chefnogaeth ar bob cyfle.</li> <li>❖ Sicrhau bod rhieni a theulu yn deall pwysigrwydd amgylchedd di-fwg ar gyfer plant a'r effaith y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (2006) Ymyraethau cryno ac atgyfeiriad ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu o</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i gael eu hyfforddi i gyflwyno Therapi Ymyrraeth Gryno.</li> <li>❖ Ymwelwyr Iechyd i dderbyn hyfforddiant ar dechnegau</li> </ul>

gall cysylltiad â mwg ei chael ar eu hiechyd (yn enwedig mewn perthynas â Marwolaethau Sydyn Babanod).

- ❖ Ymwelwyr lechyd i gynnig therapi ymyrraeth gryno i gefnogi rhoi'r gorau i ysmegu.
- ❖ Tîm Ymwelwyr lechyd i gyfeirio fel y bo'n briodol a bod yn ymwybodol o grwpiau cefnogi lleol.

fewn Gofal Sylfaenol a lleoliadau eraill.

cyfweld ysgogiadol.

RHESTR DERMAU

TERM	DIFFINIAD
<b>Amddiffyn Plant</b>	Mae Amddiffyn Plant yn rhan o ddiogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd sy'n cael ei gynnal i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu wrth risg o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gam-drin neu esgeuluso.
<b>Asesiadau Iechyd Cynhwysfawr</b>	Asesiad iechyd teuluol cyfannol Cymru Gyfan sy'n cael ei gynnal gan yr Ymwelydd Iechyd Cofrestredig.
<b>Canlyniadau</b>	Cynllunio gwasanaethau ac asesu perfformiad gyda ffocws ar ganlyniadau y mae bwriad i wasanaethau eu cyflawni ar gyfer poblogaethau diffiniedig.
<b>Dechrau'n Deg</b>	Rhaglen dargedig wedi'i hanelu at blant 0-3 oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
<b>Diogelu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Amddiffyn plant rhag cam drin ac esgeulustod,</li> <li>❖ Atal nam ar eu hiechyd neu ddatblygiad,</li> <li>❖ Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol;</li> </ul> <p>....er mwyn galluogi iddynt gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.</p>
<b>Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd</b>	Tîm amlasiantaeth targedig yn gweithio gyda theuluoedd ble y mae cam-drin sylweddau'r rhieni yn cydfodoli gyda phryderon ynglŷn â lles y plentyn.
<b>Iechyd Cyhoeddus</b>	<p>Gofal iechyd ataliol sy'n diogelu ac yn gwella iechyd a lles y boblogaeth trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Asesiad a gwyliadwriaeth monitro iechyd</li> <li>❖ Hybu iechyd</li> <li>❖ Gostwng anghydraddoldebau iechyd</li> <li>❖ Atal afiechyd ac anaf, anabledd a marwolaeth gynnar</li> <li>❖ Amddiffyn rhag peryglon iechyd amgylcheddol (Y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth 2012)</li> </ul>



<b>Plant Cyn ysgol</b>	Plant sydd hyd at 5 oed ac nad yw'n ofyniad cyfreithiol iddynt fod yn yr ysgol a chan hynny yn disgyn o fewn cylch gorchwyl yr Ymwelydd Iechyd
<b>Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan</b>	Rhaglen Hybu Iechyd genedlaethol yn canolbwyntio ar 'Raglen Blynyddoedd Cynnar' sy'n disgrifio ymyraethau gofynnol gan weithwyr proffesiynol allweddol, e.e. Ymarferydd Cyffredinol, Ymwelydd Iechyd, Pediatregydd ayyb gyda chanlyniadau cadarn a mesuradwy ar gyfer teuluoedd â phlant cyn ysgol
<b>Teulu</b>	Grŵp o oedolion a phlant nad ydynt o reidrwydd yn dibynnu ar statws neu drefniadau byw penodol ond ble y mae cyfrifoldeb gofal dros blant cyn ysgol a ble y mae clymau priodas, gwaed neu fabwysiadu fel arfer neu yn lle hynny ble y maen nhw wedi rhoi caniatâd i drefniadau tebyg i'r clymau hynny.
<b>Timau Ymwelwyr Iechyd</b>	Tîm wedi'i arwain gan Ymwelwyr Iechyd sy'n cynnwys gweithlu â chymysgedd sgiliau a allai gynnwys Nyrsys Meithrin a Nyrsys Cofrestredig.
<b>Ymwelydd Iechyd</b>	Nyrs Gofrestredig gymwys neu Fydwraig sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant Arbenigol ychwanegol i asesu anghenion ieched unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Maen nhw'n anelu at hyrwyddo ieched da ac atal salwch. Mae cylch gorchwyl Ymwelydd Iechyd yn cynnwys gweithio o fewn cartrefi gyda theuluoedd a phlant ifanc a gweithio'n agos gyda grwpiau wrth risg a difreintiedig. Maen nhw wedi'u cofrestru fel Ymwelydd Iechyd ar 3 <sup>ydd</sup> rhan Cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC 2012).

**Aelodau Grŵp Llywio**

<b>Enw</b>	<b>Mudiad</b>
Yr Athro Jean White (Cadeirydd)	Prif Nyrs Cymru
Wendy Herbert	Arweinydd Prosiect Llywodraeth Cymru
Polly Ferguson	Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru
Denise Llewellyn	Yn Cynrychioli Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio
Dr Dianne Watkins	Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Stephen Griffiths	Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Tina Donnelly	Cyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru
Yvonne Harding	Cadeirydd Fforwm Cyngori Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol Cymru Gyfan
Yr Athro Syr Mansel Aylward	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Chris Jones	Comisiwn Bevan
Ruth Lawler	Pennaeth Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymru
Joanne Daniels	Pennaeth Is-adran Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru
Chris Tudor Smith	Pennaeth Is-adran Gwella Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tracey Williams	Cangen plant a phobl hŷn, Is-adran Gwella Iechyd
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr Is-adran Cymunedau Llywodraeth Cymru
Steven Sloane	UNITE

Steve Milson	Pennaeth Is-adran Pobl Hŷn
Caroline Jones	Nyrs Ddynodedig - Amddiffyn Plant